COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Chwefror 13eg, 2019 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), O. Hefin Roberts (Is-gadeirydd), G. Ian Evans, Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, William B. Williams, Cynghorwyr Dewi W. Roberts a John B. Hughes (Aelodau Lleol – Sylwebydd)

YMDDIHEURIADAU

Angharad Correia-Martins

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Cynghorwyr John Gwilym Jones, Dylan Llwyd ac O. Hefin Roberts fuddiant yng nghais C19/0027/39/LL – Cais Diwygiedig – Adeiladu dau dŷ fforddiadwy – Tir ger Drws y Llan, Llanengan, gan eu bod yn perthyn i'r ymgeiswyr. Gadawont y cyfarfod pan drafodwyd y cais. Yn yr un modd, gadawodd Cyng. John B. Hughes y cyfarfod pan drafodwyd cais C19/0059/39/LL – Cais Ôl-weithredol i gadw mynedfa gerbydol a man parcio cerbydau – Tegfan Bach, Lôn Gwydryn, Aber-soch, gan ei fod yn ŵr i'r ymgeisydd ond, ni lenwodd ffurflen gan mai Sylwebydd ydyw.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ionawr 16eg, 2019 yn gywir.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Ni dderbyniwyd dim.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C18/0895/39/LL **Cais Diwygiedig –** Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd – Pentre Bach, Aber-soch **– Cefnogir**

[Derbyniwyd copi, er gwybodaeth, o ohebiaeth a dderbyniodd yr Aelod Lleol oddi wrth yr ymgeisydd parthed yr uchod.]

C19/0024/39/LL Diwygio Amod 2 ar Ganiatâd C17/0494/39/LL er cynnwys dwy ffenestr gromen ar yr edrychiad dwyreiniol a ffenestr llawr cyntaf yn y talcen gogleddol – 16 Lôn Cernyw, Bwlchtocyn **– Cefnogir**

C19/0025/39/LL Newid defnydd adeilad amaethyddol i ganiatáu ei ddefnyddio fel adeilad amaethyddol ac ar gyfer storio offer o safle glampio dros y

gaeaf, ynghyd â chreu llawr mezannine ar gyfer ardal storio - Ty'n y Cae, Llangian **– Cefnogir**

C19/0027/39/LL **Cais Diwygiedig -** Adeiladu dau dŷ fforddiadwy - Tir ger Drws y Llan, Llanengan - **Cefnogir. Mynegwyd llwyr gefnogaeth i ddau gwpwl ifanc yr ardal fedru adeiladu tai sy'n fforddiadwy iddynt hwy ac am eu galluogi cyfrannu at ac aros yn eu cymuned [Datgan Diddordeb - JGJ, DLl, OHR]**

C19/0028/39/LL Gosod tanc LPG tanddaearol – 16 Lôn Cernyw, Bwlchtocyn **– Cefnogir**

C19/0059/39/LL **Cais Ôl-weithredol** i gadw mynedfa gerbydol a man parcio cerbydau – Tegfan Bach, Lôn Gwydryn, Aber-soch **– Cefnogir [Datgan Diddordeb er nad yw'n aelod o'r Cyngor – JBH]**

C19/0089/39/LL Trosi llofft gan adeiladu dwy ffenestr gromen i'r prif edrychiadau a chreu balconi - Lleifior, 12 Maes Awel, Aber-soch **- Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad a goredrych tai gyferbyn sy'n sylweddol is na'r ffordd. Nodwyd, hefyd, y byddai'n creu cynsail i newid stad daclus o fyngalos yn dai deulawr â balconi**

[Derbyniwyd copi o ohebiaeth a anfonwyd at yr Adran Gynllunio oddi wrth gymydog yn gwrthwynebu'r uchod.]

C19/0097/39/LL Dymchwel adeilad allanol presennol a chodi anecs nain newydd yn ei le – Creigir Goch, Aber-soch – **Cefnogir**

C19/0111/39/LL Codi modurdy ar ochr yr eiddo â balconi uwchben – Tegfryn, Bwlchtocyn **– Cefnogir ar yr amod mai modurdy'n unig fydd o**

C19/0116/39/LL Modurdy dwbl ar wahân, ynghyd â llwyfan bren o flaen yr eiddo - 4 Cae Du, Aber-soch **- Cefnogir ar yr amod mai modurdy'n unig fydd o. Mynegwyd hefyd y gosodwyd amod ar y byngalos na ddylid adeiladu modurdy wrth eu gwerthu'n ôl yn y chwedegau**

5. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**
Derbyniwyd yr anfoneb am y gwaith – gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

b) **10. Gohebiaeth: d) Cefnogaeth Gorfforaethol – Hunan*iaith***
Ni chafwyd amser i ddosbarthu'r pecynnau o amgylch Aber-soch.

c) **13. Gohebiaeth: c) Corn Tanrallt**
Derbyniwyd copi o'r dystysgrif prawf – popeth yn iawn ac atgyweiriwyd y weiren a dorrwyd.

ch) **13. Gohebiaeth: ch) Menter Môn – Wi-fi Cymunedol Cyhoeddus**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

d) **13. Gohebiaeth: c) O Ddrws i Ddrws – Cais am Ariannu Gwasanaeth i Drigolion Plwyf Llanengan**
Yn anffodus, ni allai'r swyddog fynychu cyfarfod heno ond, gall ddod mis nesaf.

dd) **13. Gohebiaeth: e) Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Wythnos Recriwtio**
Ni dderbyniwyd ateb.

7. **MYNWENT**

a) **Mainc Goffa**
Ni osodwyd y fainc; deallwyd ei bod bron â'i chwblhau.

8. **CAEAU CHWARAE**

a) **Offer Newydd**
i) Anfonwyd copi o'r holl ohebiaeth a'r lluniau at Gyfreithiwr y Cyngor ac ymatebodd drwy ddweud y gallai gostio rhai cannoedd i gael barn gyfreithiol ar y mater yma oherwydd ymddengys yn gymhleth cyn cynghori'r Cyngor ar ei hawliau. Awgryma gynnal cyfarfod safle/ trafodaeth â'r contractwyr ond, nodi ymlaen llaw mal un "heb ragfarn" ("*without prejudice*") ydyw.
ii) Derbyniwyd pris newydd (£16,598.00 a TAW) oddi wrth Reolwr Prosiect Caloo arall yn dilyn y newidiadau a wnaed i'r cynllun/mesuriadau gwreiddiol. Ychwanega y bu'n rhaid archebu mwy o ddeunyddiau a pheiriannau ar gyfer y newidiadau. O'i ddadansoddi, credir ei fod yn costio mwy na'r cynllun cyntaf er y lleihawyd maint y llwybr.

b) **Archwilio Coed yr Allt a Chae Chwarae Aber-soch**
Derbyniwyd amcanbris o £550.00 + TAW am archwiliad cyflwr y coed ac adroddiad oddi wrth yr arbenigwr coed; fe'i derbyniwyd.

c) **Paentio'r Offer**
Ni dderbyniwyd anfoneb am y gwaith ac ni phaentiwyd arhosfan bws Parciau Mynytho, ychwaith er gofyn i'r contractwr ei wneud rhai misoedd yn ôl; penderfynwyd ysgrifennu ato a dweud oni wnaiff y gwaith y cysyllta'r Cyngor â chontractwr arall i'w wneud.

ch) **Cydymdeimlad**
Derbyniwyd cydnabyddiaeth oddi wrth Hefin Jones, Cyfarwyddwr G.L. Jones, a'r teulu i'r cerdyn cydymdeimlo a anfonwyd atynt yn dilyn eu profedigaeth ddiweddar.

9. **CYFRIFON**

a) **Archwiliad Ariannol – Allanol 2017 – 2018**
Derbyniwyd eglurhad oddi wrth BDO am y cynnydd yn y ffi – treuliwyd awr a chwarter yn adolygu yn 2016 - 2017 o gymharu â phedair a thri chwarter eleni a chododd mwy o gwestiynau o'i gymharu â'r llynedd. O siarad â Chlercod eraill, mae'n ateb cyffredinol i bawb. Talwyd yr anfoneb erbyn hyn - gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

b) **Mainc Sarn Bach**
Rhoddwyd amrywiol gatalogau i'r aelod lleol benderfynu a chymharu meinciau – amrywia prisiau'r o £315.00 i £450.00.

c) **Codiad Cyflog y Clerc – Cytundeb Cyflog Cenedlaethol 2019 – 2020**
Trosglwyddwyd y graddau newydd i Bacstal.

ch) **Swyddfa Archwilio Cymru – Adroddiadau**
i) ***Rheoli Ariannol a Llywodraethu – Cynghorau Cymuned a Thref 2017 – 2018***

Amlinelliad casgliadau cyffredinol yr Archwilydd Cyffredinol o'i waith archwilio.

ii) ***Trefniadau Archwilio Mewnol Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru***
Adroddiad ar astudiaeth yr Archwilydd Cyffredinol o swyddogaethau archwilio mewnol yn y sector.

iii) ***Cynllun Ffioedd 2019 - 2020***
Cyhoeddwyd yr uchod yn dilyn ymgynghoriad.

Ni chafwyd cyfle i'w darllen hyd yma.

d) **Swyddfa Comisiwn Gwybodaeth**
Yn dilyn darganfod nad anfonwyd taliad ym mis Gorffennaf, cofrestrwyd â'r uchod a derbyniwyd tystysgrif, ynghyd a chadarnhad y ceir gostyngiad o bum punt yn y ffi blynyddol wrth dalu â Debyd Uniongyrchol.

10. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**
Ni dderbyniwyd ateb i'r holl ymholiadau a wnaed dros y misoedd diwethaf. Yn dilyn anfon mwy o ymholiadau, derbyniwyd hanner ateb oddi wrth y Prif Swyddog Gorfodaeth yr atebir pob un ohonynt o fewn y dyddiau nesaf ac, o ganlyniad, ni anfonwyd y llythyr i gwyno am y diffyg ymateb at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr eto.

b) **Sied Amaethyddol Cim, Bwlchtocyn**
Ni dderbyniwyd ymateb i'r pryder am yr uchod.

c) **Dymchwel y Shanty, Pen Bennar**
Derbyniwyd e-bost oddi wrth Aelod o'r Cyngor yn mynegi pryder am gyflwr y llwybr o ganlyniad i'r gwaith datblygu ar yr uchod.

ch) **Cymorth Cynllunio Cymru**
Derbyniwyd gohebiaeth y gohiriwyd yr hyfforddiant (Cyflwyniad i Gynllunio) ym Mhorthmadog oherwydd diffyg niferoedd - fe'i haildrefnwyd ar gyfer nos Fercher, Mawrth 20fed ym Mangor; bwriada ACM, DLl a'r Clerc ei fynychu.

d) **Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn – Dull a Ffafrir**
Ymholiad i sut fuasai'r Cyngor yn hoffi derbyn copi o Ganllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus yn ystod y misoedd nesaf – gofynnwyd am gopi electronig a phapur.

11. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Gorchymyn Mannau Parcio ar y Stryd (Mannau â Thaliadau), Ffordd yr A499 Y Fach, Aber-soch 2018**
Derbyniwyd copi o'r uchod a ddaeth i rym ar Ionawr 8fed - codir y ffioedd rhwng Mawrth 1af a Hydref 31ain.

b) **Bin Baw Ci ym Marchros**
Gofynnwyd i'r Adain Fwrdeistrefol osod un newydd/ychwanegol yn y maes parcio, gan mai dim ond un o rai'r Cyngor hwn sy'n weddill.

c) **Enw Stad Cornwall, Mynytho**
Darllenodd y Clerc eglurhad a dderbyniwyd pan geisiwyd cael enw uniaith Gymraeg i Stad Sant Tudwal rhyw dair blynedd yn ôl - rhaid i'r preswylwyr gytuno ag unrhyw newid i'r enw presennol cyn i swyddogion yr Uned Rheolaeth Adeiladu hysbysu'r Post Brenhinol.

ch) **Ffyrdd Aber-soch – Gorchymyn Cau'r Ffordd Ddi-ddosbarth a adwaenir fel Cae Du, Aber-soch) (Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro) 2019**
Copi o'r uchod yn hysbysu y daw i rym ar Fawrth 4ydd er mwyn ail-wynebu'r ffordd. Gobeithir cwblhau'r gwaith o fewn tua phum niwrnod.

d) **Adolygiad Cludiant**
Ymgynghoriad o'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus yng Ngwynedd yn dilyn cyfnod anodd iawn dros y blynyddoedd diwethaf ac oherwydd sefyllfa ariannol heriol y Cyngor; daw i ben ar Ebrill 30ain.

dd) **Cais am Olau Stryd yn Stad Sant Tudwal, Mynytho**
Derbyniwyd cais yn gofyn a fyddai modd gosod lamp stryd yn yr uchod; penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd gyntaf.

e) **Biniau Halen**
Derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth drigolyn ym Mhen Bennar yn gofyn am halen yn y bin ger Lôn Rhoslyn. Cysylltwyd â'r Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol i ofyn beth oedd y sefyllfa o ran eu llenwi ond, ni ddychwelwyd yr alwad ffôn fel yr addawyd.

f) **Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd (Ardal Dwyfor) 2019**
Copi o'r Rhybuddion Cyhoeddus yn hysbysu y daw'r cyfnod gwrthwynebu i ben ar Fawrth 8fed ar gyfer Ffyrdd Di-ddosbarth Lôn Pen Cei ar ddwy ochr y ffordd i'r dwyrain o'i chyffordd â Lôn Rhoslyn a Chae Du ar ddiwedd y man troi ger Rhif 4 - dim aros ar unrhyw adeg; dim gwrthwynebiad.

12. **MATERION HAWLIAU TRAMWY**

a) **Torri'r Llwybrau**
Ni ymatebodd Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, i'r cynnig o ymweld ag o ym Mhwllheli i drafod ail-gategoreiddio'r llwybrau.

b) **Ad-daliad Torri Llwybrau 2019 – 2020**
Derbyniwyd hysbysiad mai'r £2438.50 fydd yr uchod – fe'i derbynnir.

13. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**
i) ***Bwletin mis Ionawr***
Nid oedd dim o bwys i'w argraffu y tro hwn.
ii) ***Hyfforddiant mis Chwefror***
Rhestr o'r uchod, er gwybodaeth.

b) **Ffermwyr Ifanc Eryri – Cynllun Ffrindiau**
Gwahoddiad i'r Cyngor gyfrannu can punt y flwyddyn at yr uchod – fe'i trafodir yn yr Is-bwyllgor Ariannol cyn cyfarfod mis Mawrth.

c) **Swyddog Adfywio Dwyfor – 'Ymholiad Sydyn'**
Cwestiwn oddi wrth yr uchod ar ran Rheolwr Llinell y Swyddogion Adfywio yn gwirio pa gynghorau cymuned a thref sydd â gofod swyddfa ac ymhle. Holwyd pam a chredid mai ar gais un o'r Uwch Reolwyr y gofynnwyd, gan ei fod yn edrych i mewn i'r posibilrwydd os oes modd cael bandllydan am ddim i'r cynghorau ond nad oes gwarant bod hynny am fod yn bosibl. Awgrymwyd efallai mai rhywbeth tebyg i'r cynllun wi-fi ydyw.

ch) **Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru - Diwygio Blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd**
Copi o'r uchod, er gwybodaeth.

14. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C17/0371/39/AM	Dymchwel adeilad ac adeiladu tŷ – Tir ger Berthwen, Bwlchtocyn **- Caniatawyd ag amodau**
C18/1049/39/LL	Dymchwel cwt glan y môr presennol a chodi un newydd (adnewyddu Caniatâd C12/1299/39/LL) - Cwt Glan Môr Marchros, Aber-soch **- Caniatawyd ag amodau**
C18/1069/39/LL	Porth newydd, estyniad i'r modurdy, to dyfnach a ffenestri gromen **–** The Wheel House, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C18/1112/39/HY	Gosod arwydd fasgia **–** Present Thoughts, 3-4 Lôn Pen Cei, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C18/1118/39/LL	Adeiladu tŷ annedd (dyluniad diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd yng nghais 2/19/69A **-** Tir ger Gilfach Goed, Lôn Pen Cei, Aber-soch - **Gwrthodwyd**
C18/1119/39/LL	Gosod dau danc storio PLG tanddaearol (4000 litr) **–** The Warren, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C18/1120/39/LL	Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer ar edrychiad cefn y caffi/bwyty **–** The Warren, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C18/1127/39/LL	Dymchwel modurdy presennol a chodi anecs ar gyfer defnydd is-wasanaethol **–** Anhywel, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

15. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Chwefror (Rh/S 002209) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Healthmatic – £363.31 (Rh/S 002206 – Darn Trydanol i'r Toiledau)
b) Cyngor Gwynedd – £776.94 (Rh/S 002207 – Gwagio Biniau Baw Cŵn)
c) Casglwr Trethi – £5.14 (Rh/S 002208 – Talu Wrth Ennill)
ch) Swyddfa Archwilio Cymru – £413.55 (Rh/S 002199 – Archwiliad 2017 – 2018)

Derbyniadau
a) Toiledau – £2.80 (Arian Mynediad)
b) ScottishPower – £3.57 (Wayleave Cae Chwarae a Choed yr Allt Aber-soch)

16. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Mawrth 13eg, 2019 am saith o'r gloch